

Cylchlythyr

Taliadau Premiwm Cyfrwng Cymraeg

11 Medi 2007

Cyf: W07/36HE

At: Penaethiaid sefydliadau addysg uwch
Cymru;
Prifathrawon colegau addysg bellach a
gyllidir yn uniongyrchol

Crynodeb: Yn dilyn gwaith a wnaed yn 2006 ar gostau
darpariaeth cyfrwng Cymraeg ac
ymgyngoriad wedyn â'r sector, mae'r
cylchlythyr hwn yn rhoi arweiniad diwygiedig
ar ddychwelyd data am ddarpariaeth
cyfrwng Cymraeg i'r Asiantaeth Ystadegau
Addysg Uwch ac ar sut y defnyddir y data
hyn gan CCAUC i gyfrifo dyraniadau
premiwm cyfrwng Cymraeg.

Ymateber erbyn: Nid oes angen ymateb

Gwybodaeth bellach: Alison Allan
Ffôn: 029 20682223
E-bost: alison.allan@hefcw.ac.uk

Rachael Gray
Ffôn: 029 20682243
E-bost: rachael.gray@hefcw.ac.uk



CYFLWYNIAD

- 1 Yn dilyn gwaith a wnaed yn 2006 ar gostau darpariaeth cyfrwng Cymraeg ac ymgynghoriad wedyn â'r sector, mae'r cylchlythyr hwn yn rhoi arweiniad diwygiedig ar ddychwelyd data am ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg i'r Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (AYAU/HESA) ac ar sut y defnyddir y data hyn gan CCAUC i gyfrifo dyraniadau premiwm cyfrwng Cymraeg.

CEFNDIR

- 2 Mae CCAUC yn defnyddio data o gofnodion yr AYAU ar ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg i gael gwybodaeth ar gyfer cyfrifo dyraniadau premiwm cyfrwng Cymraeg ac i fesur cynnydd yn erbyn y targed cyfrwng Cymraeg yn Ymgeisio'n Uwch. Mae dadansoddiad o'r wybodaeth hon, yn ogystal â data eraill a ddychwelir i'r AYAU am staff sy'n addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg a myfyrwyr Cymraeg eu hiaith, hefyd yn cyfrannu at ddealltwriaeth lawnach o sefyllfa darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn y sector.
- 3 Ers cyhoeddi adroddiad y llynedd ar gostau darpariaeth cyfrwng Cymraeg a gomisiynodd CCAUC gan London Economics, buom yn ystyried, mewn ymgynghoriad â chydweithwyr yn y sector, newidiadau i'r trefniadau ar gyfer cyllid premiwm cyfrwng Cymraeg, gyda'r nod o ddarparu arweiniad wedi'i ddiweddarau.
- 4 Yn dilyn seminar cychwynnol ym mis Medi y llynedd, pan gyflwynodd yr ymgynghorwyr eu hadroddiad, cynhaliwyd ymgynghoriad ffurfiol yn gynharach yn y flwyddyn (Cylchlythyr W06/56HE). Ers hynny, mae'r gweithgor blynyddol gyda staff ystadegau'r sector ym mis Mehefin a sylwadau gan gydweithwyr yn ystod trafodaethau mwy cyffredinol ar ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg wedi ein helpu i ddod i'n casgliadau.
- 5 Canolbwyntiodd yr ymgynghoriad yn gyntaf ar y trothwy cymhwyster ar gyfer cyllid premiwm yn nhermau maint y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg a gyflwynir. Yna ymdriniodd yr ymgynghoriad ag amrywiaeth o faterion yn ymwneud â'r diffiniad o addysgu cyfrwng Cymraeg o fewn modiwl a'r pynciau sy'n gymwys ar gyfer taliadau premiwm. Yn olaf, ceisiodd farn ar y data sy'n cael eu cofnodi gan yr AYAU am staff sy'n addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Byddwn yn adrodd ar yr agwedd hon ar yr ymgynghoriad ar wahân.
- 6 Yn y paragraffau sy'n dilyn cyflwynwn ein casgliadau mewn ymateb i'r ymgynghoriad. Mae gwybodaeth wedi cael ei hymgorffori yn ôl yr angen yn yr arweiniad yn Atodiad A. Mae'r rheiny a ymatebodd i'r ymgynghoriad wedi'u rhestru yn Atodiad B.
- 7 Rydym wedi nodi isod y byddwn yn casglu enghreifftiau eglurhaol o arfer penodol ym maes darpariaeth cyfrwng Cymraeg i gefnogi'r arweiniad. Wrth wneud hyn, rhagwelwn y bydd y Grŵp Sector Addysg Uwch Cyfrwng Cymraeg a sefydlwyd fel rhan o fframwaith strategol newydd y sector ar gyfer darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn ganolbwynt ar gyfer trafodaethau ar y materion hyn.

TROTHWY CYMHWYSTER

- 8 Wrth ystyried y trothwy cymhwyster ar gyfer cyllid premiwm, roeddem yn ymwybodol o'r angen i gydbwyso
 - awydd i hybu cymaint o ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg â phosibl, ac i sicrhau bod costau ychwanegol darpariaeth o'r fath yn cael eu hadlewyrchu mewn cyllid ychwanegol drwy'r premiwm, â'r
 - awydd i sicrhau bod darpariaeth cyfrwng Cymraeg o'r fath o faint ystyrlon.

Roeddem hefyd yn dymuno sicrhau bod darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn denu cyllid premiwm mewn ffordd deg, ac nad oedd meintiau cyffelyb o ddarpariaeth yn cael eu rhwystro'n amhriodol rhag bod yn gymwys ar gyfer cyllid premiwm.

- 9 Felly, yn yr ymgynghoriad, cynigiwyd y dylid cadw cyfran drothwy leiaf o fodiwl y mae'n rhaid iddi gael ei chyflwyno drwy gyfrwng y Gymraeg er mwyn i'r ddarpariaeth fod yn gymwys ar gyfer cyllid premiwm. Ond cynigiwyd hefyd y dylid newid hyn o 25% o'r modiwl i ddau gredyd, sef 20 o oriau dysgu tybiannol, oherwydd yr ystyrir bod hyn yn cynrychioli profiad dysgu lleiaf drwy gyfrwng y Gymraeg sy'n ystyrlon at y pwrpas hwn.
- 10 Roedd y mwyafrif o'r rheiny a ymatebodd yn gryf o blaid y newid hwn a chafodd ei gyflwyno wrth gyfrifo cyllid premiwm 2007/08. Cadarnhawyd hyn yn y cylchlythyr grant rheolaidd ar gyfer 2007/08 (W07/12HE).
- 11 Hoffem bwysleisio eto bwynt a wnaed yn y ddogfen ymgynghori. Nid yw diffinio'r trothwy lleiaf yn nhermau maint credyd, yn hytrach na chanran o fodiwl, yn cael unrhyw effaith ar ofynion casglu data. Bydd sefydliadau'n parhau i gofnodi'r canran o'r modiwl a gyflwynir drwy gyfrwng y Gymraeg. Yna bydd staff CCAUC yn cyfrifo maint credyd tybiannol a gyflwynir drwy gyfrwng y Gymraeg fel lluoswm y dangosydd canran a chyfanswm y credydau ar gyfer y modiwl.
- 12 Hoffem hefyd bwysleisio pwynt arall lle y mae peth dryswch wedi codi. Fel ag o'r blaen, cyfrifir y premiwm ar y gyfran honno o'r modiwl y cofnodwyd ei bod yn cael ei chyflwyno drwy gyfrwng y Gymraeg, wedi'i mynegi mewn niferoedd o werthoedd credyd, nid gwerth credyd y modiwl cyfan. Felly, os cofnodir bod gan fodiwl 40-credyd faint credyd o 5 credyd a gyflwynir drwy gyfrwng y Gymraeg, cyfrifir gwerth y premiwm ar sail 5 credyd **nid** 40 credyd.

DIFFINIAD O FODIWL ADDYSGU CYFRWNG CYMRAEG

- 13 Nodwyd yn yr ymgynghoriad nad yw'r datganiad presennol sy'n diffinio modiwl addysgu cyfrwng Cymraeg wedi cael ei ddiweddarau ers 1994. Nid oedd ei derminoleg yn adlewyrchu'r arfer presennol mewn dysgu ac addysgu, gan ei fod yn canolbwyntio'n ormodol ar addysgu ffurfiol a chan nad oedd yn darparu ar gyfer e-ddysgu ac asesu anysgrifenedig. Cynigiwyd diffiniad diwygiedig yn yr ymgynghoriad.
- 14 Cadwodd y diffiniad yr egwyddor o'r diffiniad cynharach bod yn rhaid i'r myfyriwr gwblhau'r holl waith asesu yn y Gymraeg er mwyn i fodiwl gael ei ystyried yn un a gyflwynir yn gyfan gwbl drwy gyfrwng y Gymraeg (a bod yn gymwys felly ar gyfer premiwm o 100% ar y modiwl hwnnw).
- 15 Ystyriwn fod yr egwyddor hon yn bwysig ar gyfer cadernid y system breimiwm a'r cysyniad o astudio modiwl neu gwrs yn gyfan gwbl drwy gyfrwng y Gymraeg. Nid ydym o'r farn bod hyn yn llesteirio darparu cyfrannau uchel o fodiwl yn y Gymraeg, er y gall y myfyriwr ddewis cael ei asesu yn y Saesneg, oherwydd y darperir ar gyfer hyn o fewn y system breimiwm. Ymhellach, er na fyddem yn dymuno gweld myfyriwr yn dewis peidio â chymryd rhan mewn modiwl a gyflwynir drwy gyfrwng y Gymraeg gan y mynnir i'r asesu fod drwy gyfrwng y Gymraeg, sylweddolwn fod sefydliadau hefyd yn ceisio meithrin hyder a chymhwysedd eu myfyrwyr fel eu bod yn teimlo'n fwy hyderus ynghylch cael eu hasesu yn y Gymraeg.
- 16 Yn yr ymgynghoriad, codwyd y mater hwn yn benodol yng nghyd-destun sefyllfa lle y mae modiwl yn cael ei gyflwyno'n gyfan gwbl yn y Gymraeg ond lle y mae'r myfyriwr yn dewis cael ei asesu drwy gyfrwng y Saesneg. Ni chawsom wybod yn iawn i ba raddau y mae hyn yn digwydd. Ond derbyniwyd rhai sylwadau buddiol a dynnodd sylw at y cymhlethdodau a all godi. Nododd rhai ymatebion achosion lle, mewn modiwlau a gyflwynir drwy gyfrwng y Gymraeg, y byddai'r myfyrwyr yn cwblhau asesiadau yn y Saesneg fel rheol; mewn achosion eraill, asesu drwy gyfrwng y Gymraeg oedd yr arfer. Cafwyd sylwadau eraill ar wahanol arferion mewn perthynas â modiwlau a ddarperid yn rhannol drwy gyfrwng y Gymraeg. Nodwyd hefyd y gall myfyrwyr unigol amrywio eu dewis o iaith asesu o fewn modiwl.

- 17 Sylweddolwn nad yw'n ymarferol i CCAUC roi arweiniad sy'n cwmpasu pob amrywiad bach. Hyd yn oed pe gallai wneud hyn, byddai'n arwain at lefel amhriodol o ymyrraeth mewn cyfrifoldebau sefydliadol ac yn gosod baich gweinyddol annerbyniol ar y sefydliadau. Felly disgwyliem i'r sefydliadau arfer doethineb ac uniondeb wrth benderfynu ar y gyfran o fodiwl (gan gynnwys asesu) a gyflwynir drwy gyfrwng y Gymraeg, ac y byddent yn ffyddiog y byddai eu penderfyniadau'n cael eu derbyn mewn archwiliad. Mae rhai ffactorau y byddem yn disgwyl iddynt gael eu cymryd i ystyriaeth yn cael eu nodi yn yr arweiniad yn Atodiad A.

CYMHWYSTER PWNC

- 18 Roedd yr ymgynghoriad yn cynnwys cynigion ar y diffiniad o bynciau sy'n gymwys ar gyfer taliadau premiwm cyfrwng Cymraeg. Roedd hyn yn cymryd i ystyriaeth ddatblygiadau cwricwlwm ers cyhoeddi'r arweiniad gwreiddiol, megis dysgu gyda chymorth technoleg a darparu medrau proffesiynol. Ni roddodd yr ymatebion i'r ymgynghoriad lawer o enghreifftiau penodol pellach i ni o fodiwlau nad oeddem yn gwybod amdanynt, nad yw'n hawdd barnu a ydynt yn gymwys ai peidio. Mae'n bosibl y daw enghreifftiau eraill i'r amlwg wrth i gwricwla gael eu datblygu mewn pynciau neilltuol, neu mewn cwricwla a lunnir yn arbennig gyda sgiliau neu ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg mewn golwg.
- 19 Felly mae'n bosibl y bydd angen i ni wneud penderfyniadau ar y rhain, o fewn y canllawiau cyffredinol, wrth iddynt godi. Bob blwyddyn, gwiriwn yr allbynnau data cyfrwng Cymraeg â llaw am wallau posibl neu gwiriwn gofnodion lle nad yw'n glir a ddylai'r ddarpariaeth dan sylw fod yn gymwys ar gyfer y premiwm. Sut bynnag, mewn ymateb i bryderon a godwyd gan y sefydliadau, byddwn yn trafod enghreifftiau o'r fath gyda hwy cyn anfon y ceisiadau gwireddu ffurfiol. Byddwn hefyd yn nodi, yn y ceisiadau gwireddu, unrhyw gofnodion nad ydym wedi'u cynnwys. Bydd unrhyw benderfyniadau a wnawn ar gymhwyster mewn maes pwnc neilltuol yn cael eu hysbysu i'r sector cyfan, er na fyddwn yn enwi'r sefydliad dan sylw. Yn y modd hwn, byddwn yn gallu datblygu'r arweiniad sydd ar gael i'r sefydliadau.
- 20 Rydym hefyd yn annog y sefydliadau i drafod gyda ni ddarpariaeth newydd y maent hwy'n ei datblygu os nad ydynt yn sicr a yw'n gymwys ar gyfer cyllid premiwm ai peidio. Hefyd rhagwelwn y bydd y gorolwg o ddatblygiadau mewn darpariaeth yr ymgymereir ag ef gan y Grŵp Sector Addysg Uwch Cyfrwng Cymraeg o gymorth i sicrhau dealltwriaeth gyson.
- 21 Mewn achosion lle nad ydym yn sicr beth yw sail sefydliad dros farnu bod darpariaeth yn gymwys ar gyfer y premiwm, mae'n bosibl y gofynnwn am ragor o wybodaeth.
- 22 Ceir arweiniad ar gymhwyster pwnc yn Atodiad A.

TALIADAU'N SEILIEDIG AR FODIWL

- 23 Yn yr ymgynghoriad, nodwyd yr awgrym y gellid cynnig cymhelliad pellach i gynyddu darpariaeth cyfrwng Cymraeg pe câi taliadau ychwanegol eu rhoi am bob modiwl a gyflwynir drwy gyfrwng y Gymraeg. Rhoddwyd ystyriaeth i hyn a daethpwyd i'r casgliad y gallai arwain at dreulio llawer o amser yn datblygu cwricwlwm wedi'i wasgaru ar draws nifer mawr o fodiwlau bach er mwyn denu'r cyllid ychwanegol, heb unrhyw gynnydd o sylwedd mewn darpariaeth cyfrwng Cymraeg. Ni dderbyniwyd ymatebion yn ystod yr ymgynghoriad a barodd i ni newid ein barn yn y cyswllt hwn ac felly ni fyddwn yn symud ymlaen â'r cynnig hwn.

AMSERLEN

- 24 Gall sefydliadau ddefnyddio'r arweiniad hwn i lywio eu penderfyniadau ar unwaith. Fodd bynnag, gan fod y data a ddefnyddir gan y Cyngor i gyfrifo taliadau premiwm yn ôl-weithredol, bydd yn cymryd amser i'r arweiniad yr ydym wedi'i roi gael ei ymgorffori yn nyraniadau'r sefydliadau. Yn ein dadansoddiad o'r data bob blwyddyn, byddwn yn ystyried yr effaith y mae'r newidiadau yn ei chael. Ar sail ein dadansoddiad a thrafodaethau â'r sefydliadau ar weithredu'r arweiniad, byddwn yn newid neu'n ehangu'r arweiniad fel y bo'n briodol, i sicrhau ei fod yn parhau'n gyfoes ac yn addas i'r pwrpas.

ARWEINIAD AR DALIADAU PREMIWM CYFRWNG CYMRAEG

Mae CCAUC yn gwneud taliadau premiwm i gydnabod y costau ychwanegol sy'n gysylltiedig â gwneud darpariaeth drwy gyfrwng y Gymraeg. O 2007/08, mae cyfrifo'r premiwm cyfrwng Cymraeg wedi'i seilio ar Uned Cyllid CCAUC, yn hytrach na'r Uned Adnodd fel ag o'r blaen (gweler Cylchlythyr W07/12HE, *Recurrent Grant 2007/08*, am ragor o wybodaeth).

Cyfrifir y taliadau premiwm ar sail nifer y myfyrwyr sy'n dilyn modiwl yn gyfan gwbl neu'n rhannol drwy gyfrwng y Gymraeg ac ar gyfran y modiwl a gyflwynir drwy gyfrwng y Gymraeg. Y nifer lleiaf o werthoedd credyd ar y modiwl y mae'n rhaid iddynt gael eu cyflwyno'n dybiannol drwy gyfrwng y Gymraeg er mwyn iddo fod yn gymwys ar gyfer cyllid premiwm yw 2 werth credyd (20 o oriau dysgu tybiannol).

Mae'r arweiniad isod yn ymdrin â'r canlynol:

- Diffiniad o fodiwl addysgu cyfrwng Cymraeg
- Cymhwyster pwnc
- Tynnu data a chyfrifo cyllid premiwm cyfrwng Cymraeg.

DIFFINIAD O FODIWL ADDYSGU CYFRWNG CYMRAEG

1 Caiff y meini prawf a ganlyn eu mabwysiadu wrth ddiffinio modiwl fel un a gyflwynir yn gyfan gwbl neu'n rhannol drwy gyfrwng y Gymraeg:

- a) Dylai'r modiwl fod yn elfen strwythuredig o'r ddarpariaeth, gyda maes llafur a gymeradwywyd yn unol â chonfensiynau'r sefydliad.
- b) Os cofnodir bod y modiwl yn un a gyflwynir yn gyfan gwbl drwy gyfrwng y Gymraeg, rhaid i'r holl waith a gyflwynir ar gyfer asesu gan y myfyriwr gael ei gwblhau yn y Gymraeg.
- c) Os cyflwynir y modiwl yn rhannol drwy gyfrwng y Gymraeg, dylai sefydliadau gyfrifo'r gyfran o'r modiwl a gyflwynir drwy gyfrwng y Gymraeg. Dylid mabwysiadu'r dull hwn hefyd os yw modiwl yn cael ei addysgu'n gyfan gwbl drwy gyfrwng y Gymraeg ond ei asesu drwy gyfrwng y Saesneg. Ni ellir cofnodi bod modiwl o'r fath yn un a gyflwynir 100% drwy gyfrwng y Gymraeg.
- d) Rhai ffactorau y gall sefydliadau eu hystyried wrth gyfrifo'r gyfran os yw modiwl yn cael ei gyflwyno'n gyfan gwbl drwy gyfrwng y Gymraeg ond ei asesu'n gyfan gwbl neu'n rhannol drwy gyfrwng y Saesneg yw:
 - Barn ynghylch y gyfran o'r modiwl sy'n waith asesu yn nhermau'r gweithgaredd cyflwyno darpariaeth sy'n gysylltiedig â'r modiwl.
 - Barn ynghylch i ba raddau y mae cyflwyno'r ddarpariaeth yn y Gymraeg wedi gofyn am ddarparu adnoddau astudio annibynnol neu lyfrgell cyfrwng Cymraeg, yn ychwanegol at adnoddau ystafell ddosbarth.
 - Lle y gall modiwlau gael eu cyflwyno drwy e-ddysgu neu ddysgu gyda chymorth technoleg, a lle y mae angen neu y gall fod angen cymorth ar-lein neu wyneb yn wyneb gan aelod o'r staff academaidd, a yw hyn ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg.

Gall y ffactorau hyn hefyd fod yn ddefnyddiol i sefydliadau wrth gyfrifo cyfrannau o fodiwlau a addysgir yn rhannol drwy gyfrwng y Gymraeg.

- e) O ystyried y gall fod amrywiadau yn y gyfran o ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg y mae myfyrwyr unigol ar y modiwl yn dewis ei dilyn, neu, mewn modiwl a gyflwynir

yn gyfan gwbl yn y Gymraeg, mewn faint o asesu a gwblheir yn y Gymraeg, gall sefydliadau gyfrifo cyfran gyfartalog a ddilynr gan fyfyrwyr ar y modiwl (neu gyfartaledd amcangyfrifedig wedi'i seilio ar sampl digonol a chynrychioliadol o fyfyrwyr ar y modiwl). Er ein bod ni'n ystyried bod hyn yn annhebygol, byddai gennym bryderon pe bai'r drefn hon yn cwmpasu amrywiadau mor eithafol mewn cyfranogiad o fewn modiwl fel bod perygl mawr y byddai'n ystumio'r data, gan ein bod ni hefyd yn dadansoddi'r rhain ar gyfer tueddiadau, ac ati, er mwyn cyfrannu at bolisi ehangach ar ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg. O dan yr amgylchiadau hyn, dylid ceisio arweiniad pellach gan CCAUC.

Gall y Cyngor geisio gwybodaeth am y modd y cyfrifwyd y cyfrannau, a bydd yn disgwyl i fanylion y dulliau gael eu cadw ac iddynt fod ar gael i'r archwilwyr os gofynnir amdanynt.

- f) Dylai'r ddarpariaeth fod yn agored i'r broses arferol o sicrhau ansawdd a ddefnyddir o fewn y sefydliad.
- g) Rhaid i'r asesiad o berfformiad y myfyrwyr sy'n dilyn y modiwl ddilyn prosesau asesu arferol y sefydliad.
- h) Nid yw darpariaeth a gyflwynir yn gyfan gwbl drwy gyfrwng y Saesneg ond lle y mae'r myfyrwr yn arfer yr hawl i ymgymryd ag asesu drwy gyfrwng y Gymraeg yn gymwys ar gyfer cyllid premiwm.

CYMHWYSTER PWNC

2 Dylid nodi'r arweiniad canlynol wrth ystyried pynciau sy'n gymwys ar gyfer cyllid premiwm.

- a) Telir y premiwm ar gyfer cofrestradau ar gyrsiau lle y mae pynciau ar wahân i iaith neu lenyddiaeth Gymraeg yn cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg, er mwyn cydnabod y costau ychwanegol sy'n gysylltiedig â pharatoi a chyflwyno darpariaeth o'r fath.
- b) Nid ystyrir bod cyrsiau iaith a llenyddiaeth Gymraeg yn ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg o dan y diffiniad hwn. At ei gilydd, felly, bydd modiwlau'n ymwneud ag iaith a llenyddiaeth Gymraeg yn parhau'n anghymwys ar gyfer cyllid premiwm cyfrwng Cymraeg. Ystyriwn fod modiwlau ar ysgrifennu creadigol a addysgir drwy gyfrwng y Gymraeg yn perthyn i'r categori hwn.

Byddem yn disgwyl, fodd bynnag, i'r wybodaeth am y canran a gyflwynir drwy gyfrwng y Gymraeg gael ei llenwi o hyd ar gyfer y modiwlau hyn ar gofnodion yr AYAU.

- c) Ystyrir bod y mathau canlynol o fodiwl yn gymwys:
 - modiwlau'n ymwneud â meithrin sgiliau iaith sydd â'r nod o alluogi myfyrwyr i weithredu mewn cyd-destunau proffesiynol neu bwnc penodol drwy gyfrwng y Gymraeg.
 - modiwlau sy'n dysgu i fyfyrwyr y derminoleg a chysyniadau sy'n angenrheidiol i ymdrin â'u maes pwnc neilltuol yn y Gymraeg.
 - modiwlau ar feithrin medrau proffesiynol penodol a gyflwynir drwy gyfrwng y Gymraeg. Rhai enghreifftiau yw: modiwlau a gyflwynir drwy gyfrwng y Gymraeg ar fedrau cyfieithu proffesiynol, medrau gweinyddu a medrau mentora.

Mae'n debyg yr ystyrir bod cyrsiau gwella iaith nad ydynt yn benodol i bwnc neu gyrsiau 'gloywi iaith' cyffredinol yn anghymwys.

- d) Fel y nodwyd uchod, ni fyddai modiwlau llenyddiaeth Gymraeg yn gymwys fel rheol. Ond mae'n bosibl bod modiwlau o'r fath yn cael eu defnyddio weithiau mewn rhaglenni'n ymwneud â hanes a diwylliant Cymru er mwyn ymdrin ag agweddau hanesyddol a diwylliannol a ddatgelir gan y llenyddiaeth. Er y gall y ddarpariaeth fod yn gyffredin, byddai'r gwahanol ganlyniadau dysgu yn awgrymu bod y modiwlau'n wahanol. O ganlyniad, yn achos myfyrwyr hanes a diwylliant Cymru, dylai modiwlau o'r fath gael eu hystyried a'u codio'n fodiwlau hanes neu ddiwylliant Cymru, yn hytrach na llenyddiaeth, a'u dychwelyd fel modiwlau a addysgir drwy gyfrwng y Gymraeg fel y bo'n briodol. Lle y ceir modiwlau o'r fath, efallai y byddwn yn ceisio gwybodaeth bellach ar sut y cawsant eu teilwra i gwrdd â gofynion y myfyrwyr dan sylw
- e) Rhaid defnyddio cod JACS Q560 neu Q561 i godio modiwlau iaith a llenyddiaeth Gymraeg ar Gofnodion yr AYAU, ac nid y cod lefel uwch ar gyfer Astudiaethau Celtaidd, sef Q500. Ni fydd y modiwlau hyn yn cael eu dosbarthu fel rhai sy'n gymwys ar gyfer cyllid premiwm cyfrwng Cymraeg ac felly ni chânt eu cynnwys wrth gyfrifo cyllid. Felly mae'n bwysig i sefydliadau godio meysydd pwnc modiwlau'n gywir er mwyn i ni allu barnu beth sy'n gymwys ar gyfer cyllid cyfrwng Cymraeg a beth sydd ddim. Os caiff modiwl ei godio gyda mwy nag un pwnc ac os na chaiff prif bwnc y modiwl ei godio fel iaith neu lenyddiaeth Gymraeg, ond os caiff pwnc arall ei godio felly, gallai'r modiwl hwn ddal i gael ei gynnwys yn y cyfrifiadau premiwm, ond gall gael ei ddiddymu drwy ddulliau llaw.

Y DATA A DYNNIR A CHYFRIFO CYLLID PREMIWM CYFRWNG CYMRAEG

- 3 Rhoddir isod arweiniad ar gofnodi data cyfrwng Cymraeg a sut y defnyddir hyn i gyfrifo cyllid premiwm.
 - a) Bydd yr holl ddata a ddefnyddir i gyfrifo dyraniadau'r Premiwm Cyfrwng Cymraeg ar gyfer 2008/09 yn cael eu tynnu o gofnodion Myfyrwyr a Modiwlau 2006/07 yr AYAU yn unol â'r arweiniad yn y cylchlythyr ar ofynion data addysg uwch ar gyfer 2006/07 (W06/39HE, Atodiad A, paragraffau 31-33). Mae arweiniad yn ymwneud â data 2007/08 yr AYAU, a ddefnyddir i gyfrifo cyllid 2009/10, i'w gael yn y cylchlythyr ar ofynion data addysg uwch ar gyfer 2007/08 a gyhoeddir ym mis Medi 2007. Caiff y cylchlythyr hwn ei ddiweddarau bob blwyddyn a bydd cyhoeddiadau yn y blynyddoedd i ddod yn cynnwys arweiniad cyffelyb.
 - b) Dynodi darpariaeth drwy gyfrwng y Gymraeg

Data 2006/07 yr AYAU

Defnyddir y Dynodwr Modiwl MODID (maes 5 yng Nghofnod Modiwlau'r AYAU) i ddynodi modiwlau a gyflwynir yn gyfan gwbl neu'n rhannol drwy gyfrwng y Gymraeg. Bydd modiwlau y mae eu Dynodwr Modiwl yn terfynu â llythyren W yn cael eu hystyried yn rhai a gyflwynir yn gyfan gwbl neu'n rhannol drwy gyfrwng y Gymraeg. Defnyddir MODPW (meysydd 101-116 yng Nghofnod Myfyrwyr yr AYAU) i ganfod y gyfran o'r modiwl a gyflwynir drwy gyfrwng y Gymraeg.

Data 2007/08 yr AYAU

Bydd modiwlau a gyflwynir yn gyfan gwbl neu'n rhannol drwy gyfrwng y Gymraeg yn cael eu dynodi fel rhai â'r maes Modiwl ar Gael mewn Iaith Geltaidd, MODLANG (a ddychwelir yn endid Modiwlau Cofnod Myfyrwyr yr AYAU), sy'n hafal i 1, Cymraeg. Defnyddir y maes Canran y Modiwl a Addysgir mewn Iaith Geltaidd (LANGPCNT), a ddychwelir ar endid Modiwlau Cofnod Myfyrwyr yr AYAU, i ganfod y gyfran o'r modiwl a gyflwynir drwy gyfrwng y Gymraeg.

c) Dynodi darpariaeth iaith a lenyddiaeth Gymraeg

Data 2006/07 yr AYAU

Dynodir modiwlau fel rhai iaith neu Lenyddiaeth Gymraeg lle y mae SBJ01 (maes 13 yng Nghofnod Modiwlau'r AYAU) yn hafal i Q560 neu Q561. Ni fydd modiwlau o'r fath yn cael eu cynnwys yn y data a dynnir.

Defnyddir y maes pwnc cyntaf (SBJ01) i ddiffinio pwnc y modiwl at bwrpas y premiwm. Os nad yw SBJ01 wedi'i godio'n Q560 neu Q561, ond os yw un o'r meysydd pwnc eraill ar Gofnod Modiwlau'r AYAU, SBJ02, SBJ03 neu SBJ04, wedi'i godio'n Q560 neu Q561, ni fydd y modiwl yn cael ei ddiddymu'n awtomatig o'r data a dynnir, ond gall gael ei ddiddymu â llaw. Felly mae'n bwysig codio'r maes SBJ01 yn briodol.

Data 2007/08 yr AYAU

Dynodir modiwlau fel rhai iaith neu Lenyddiaeth Gymraeg lle y mae MODSBJ, a ddychwelir ar endid Modiwlau Cofnod Myfyrwyr yr AYAU, yn hafal i Q560 neu Q561. Ni fydd modiwlau o'r fath yn cael eu cynnwys yn y data a dynnir.

Os yw modiwl wedi'i godio gyda mwy nag un pwnc, bydd y pwnc sy'n cyfrif am y canran mwyaf o ddarpariaeth, a ddynodwyd gan ddefnyddio MODSBJP ar endid Modiwlau Cofnod Myfyrwyr yr AYAU, yn cael ei ddefnyddio i benderfynu a ddylid peidio â chynnwys y modiwl gan ei fod yn un iaith neu lenyddiaeth Gymraeg. Os nad yw'r pwnc sy'n cyfrif am y gyfran fwyaf o'r modiwl yn iaith neu lenyddiaeth Gymraeg, ond os yw cyfran lai o'r modiwl yn iaith neu lenyddiaeth Gymraeg, ni fydd y modiwl yn cael ei ddiddymu'n awtomatig o'r data a dynnir, ond gall gael ei ddiddymu â llaw.

d) Cyfrifo faint o'r modiwl a gyflwynir drwy gyfrwng y Gymraeg

Dim ond modiwlau sy'n cwrdd â'r trothwy lleiaf o 2 werth credyd a gynhwysir wrth gyfrifo'r Premiwm Cyfrwng Gymraeg.

Data 2006/07 yr AYAU

Bydd gwerth MODPW a gwerth credyd y modiwl, CRDTPTS (maes 9 yng Nghofnod Modiwlau'r AYAU), yn cael eu defnyddio i gyfrifo maint credyd tybiannol a gyflwynir drwy gyfrwng y Gymraeg.

Maint credyd a gyflwynir drwy'r Gymraeg = MODPW/100 x CRDTPTS

Data 2007/08 yr AYAU

Bydd gwerth LANGPCNT a gwerth credyd y modiwl, CRDTPTS (a ddychwelir ar endid Modiwlau Cofnod Myfyrwyr yr AYAU), yn cael eu defnyddio i gyfrifo maint credyd tybiannol a gyflwynir drwy gyfrwng y Gymraeg.

Maint credyd a gyflwynir drwy'r Gymraeg = LANGPCNT/100 x CRDTPTS

e) Cyfrifo cyfanswm y maint credyd tybiannol drwy gyfrwng y Gymraeg

Caiff y maint credyd a gyflwynir drwy gyfrwng y Gymraeg ei symio dros yr holl fyfyrwyr i roi cyfanswm y maint credyd tybiannol a gyflwynir drwy gyfrwng y Gymraeg am bob modiwl.

f) Cyfrifo'r Premiwm Cyfrwng Cymraeg

Crynohir cyfanswm y maint credyd tybiannol a gyflwynir drwy gyfrwng y Gymraeg yn ôl modd a lefel astudio ac yn ôl Categori Pwnc Academaidd (CPA).

Defnyddir cyfartaledd o faint credyd y ddwy flynedd flaenorol wrth gyfrifo'r premiwm. Lluosir y cyfartaledd hwn â'r uned cyllid ar gyfer y CPA ac mae'r premiwm ar gyfer cyllid cyfrwng Cymraeg yn cael ei gymhwyso. Cyfrifir cyfanswm y cyllid drwy symio dros yr holl foddau, lefelau a CPAau i roi cyfanswm ar gyfer pob sefydliad

Cyfrifir y cyllid yn ôl modd, lefel a CPA fel:

Cyllid = (cyfanswm y maint credyd tybiannol a gyflwynir drwy gyfrwng y Gymraeg: blwyddyn 1 + blwyddyn 2) x 0.5 x uned cyllid x premiwm

Ar gyfer cyllid 2008/09, mae blwyddyn 1 yn cyfateb i 2005/06 a blwyddyn 2 i 2006/07. Ar gyfer cyllid 2009/10, mae blwyddyn 1 yn cyfateb i 2006/07 a blwyddyn 2 i 2007/08.

Ar gyfer cyllid 2007/08, y premiwm a gymhwyswyd oedd 0.34. Hysbysir y sefydliadau o unrhyw newidiadau i'r premiwm ar gyfer cyfrifiadau cyllid yn y dyfodol.